Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Cymru

# Protocol Rhynglywodraethol ar Adnoddau Dŵr, Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr

Cyflwynwyd i Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 50 o Ddeddf Cymru 2017

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 16 Tachwedd 2017.

HC 563

## Cyflwyniad

1. Mae nodweddion daearyddol Prydain Fawr yn golygu bod llifoedd dŵr a dibyniaeth drawsffiniol sylweddol o ran dŵr rhwng Cymru a Lloegr. Er mwyn diogelu adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr ac ansawdd dŵr a lleihau'r potensial o risg yn y maes hwn o gyfrifoldebau'r priod weinyddiaethau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn cytuno ar y protocol a ganlyn.

2. Diben y protocol yw sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ddifrifol ar adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr nac ansawdd dŵr yn Lloegr yn deillio o weithredu neu ddiffyg gweithredu gan Weinidogion Cymru neu gyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru, ac nad oes unrhyw effaith andwyol ddifrifol ar adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr nac ansawdd dŵr yng Nghymru yn deillio o weithredu neu ddiffyg gweithredu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau yn Lloegr. Bydd y protocol hwn yn disodli'r pwerau ymyrryd a ddarperir yn adrannau 114 ac 152 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y maent yn berthnasol i adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr ac ansawdd dŵr.

3. Fel y darperir ar ei gyfer yn adran 50(5) o Ddeddf Cymru 2017, mae dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol, a Gweinidogion Cymru, i weithredu'n unol â'r protocol hwn. Mae adran 51 o Ddeddf Cymru 2017 yn cyflwyno dyletswydd i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi sylw i fuddiannau defnyddwyr ar ochr arall y ffin wrth arfer eu swyddogaethau.

## Cyfathrebu, Ymgynghori a Chydweithio

4. Mae'r ddwy weinyddiaeth yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu, ymgynghori a chydweithio ynghylch adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr ac ansawdd dŵr, ac yn ymrwymo i gydweithio yn ôl yr angen pan fo potensial y bydd gweithredoedd un weinyddiaeth yn amharu ar gyfrifoldebau gweinyddiaeth arall.

5. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn cytuno y dylid cyfathrebu ynghylch materion sy'n effeithio ar adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr ac ansawdd dŵr fel mater o drefn. Ar lefel swyddogion, y timau perthnasol yn Defra a thimau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wasanaethau dŵr fydd yn gwneud hynny fel rheol, gan adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn ôl eu trefn.

6. O ganlyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn ymrwymo:
    - I dynnu sylw ei gilydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol am ddatblygiadau perthnasol mewn polisi neu gamau y bwriedir eu cymryd ynghylch adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr ac ansawdd dŵr sydd ag effeithiau trawsffiniol, neu unrhyw sefyllfa neu fater arall sydd â'r potensial i gael effaith ar hynny;

- I ymgynghori â'i gilydd, ystyried tystiolaeth addas, rhoi ystyriaeth briodol i farn ac anghenion y weinyddiaeth arall wrth lunio polisi sydd â'r potensial i gael effaith trawsffiniol ac i ddangos y cafwyd ystyriaeth o'r fath;

- I wneud ymdrech resymol i weithredu mewn modd na fydd yn amharu ar allu'r weinyddiaeth arall i gyflawni ei chyfrifoldebau;

- I gynnal perthynas adeiladol ar lefel waith rhwng timau polisi perthnasol fydd yn cwrdd yn ôl yr angen wrth gynnal busnes arferol; ac

- I weithredu busnes, lle bynnag y bo'n bosibl, drwy ddulliau gweinyddol arferol, naill ai ar lefel swyddogion neu Weinidogion.

## Mewn achos o anghydfod

7. Disgwylir i'r gweinyddiaethau wneud ymdrech resymol i ddatrys unrhyw anghydfod drwy drafodaeth ar lefel swyddogion, neu, yn ôl yr angen, ymysg Gweinidogion. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru geisio datrys unrhyw anghydfod yn amserol, yn unol â brys y sefyllfa honno. Rhaid gwneud hynny mewn modd didwyll.

8. Os na fydd y weithdrefn datrys anghydfodau a nodir ym mharagraff 7 yn llwyddiannus, caiff yr anghydfod ei uwchgyfeirio at y Cyd-bwyllgor Gweinidogion i'w ystyried o dan ei weithdrefnau osgoi anghydfod a datrys anghydfod, yn unol â'i gylch gorchwyl ac fel y nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.[1]

9. Pan fydd anghydfod, a hyd nes y bydd yr anghydfod hwnnw wedi ei ddatrys, ni chaiff y swyddogaeth a oedd yn wraidd i'r anghydfod gael ei harfer, neu dylid atal ei harfer dros dro. Os bydd diffyg gweithredu, rhaid arfer y swyddogaeth honno yn y fath fodd fel bod yr 'effaith andwyol ddifrifol' yn cael ei lliniaru.

10. Yn y protocol hwn, mae'r term "anghydfod" yn cyfeirio'n unig at anghytundebau sy'n ymwneud â'r materion a nodir ym mharagraff 2 y mae'r protocol hwn wedi ei ddylunio i'w hatal.

## Diwygio'r protocol hwn neu ei ddirymu

11. Caiff y ddwy weinyddiaeth gynnig diwygio'r protocol hwn, neu gynnig ei ddirymu. Ni chaniateir i'r protocol hwn gael ei ddiwygio neu ei ddirymu ond pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn cytuno ar hynny.


[1]Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chytundebau Atodol - Rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a Phwyllgor Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hydref 2013, paragraff 24 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/316157/MoU_between_the_UK_and_the_Devolved_Administrations.pdf

12. Os caiff y protocol hwn ei ddiwygio, rhaid i'r fersiwn ddiwygiedig gael ei gosod gerbron Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cychwyn

13. Daw'r protocol hwn i rym ar 1 Ebrill 2018.

## Arwyddwyd



**Michael Gove**

**Yr Ysgrifennydd Gwladol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

**Llywodraeth y DU**



**Lesley Griffiths**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

**Llywodraeth Cymru**



**Alun Cairns**

**Yr Ysgrifennydd Gwladol, Swyddfa Cymru**

**Llywodraeth y DU**

Llofnodwyd ar: 16 Tachwedd 2017